# TYSTIOLIAETHAU DIWRTHBRAWF

NAD O'R

# "SPAULDING ROMANCE"

Y GWNAED

# LLYFR MORMON!!!

NID anadnabyddus i nemawr, mewn unrhyw ardal, tref, na gwlad drwy y byd, lle y ceir Llyfr Mormon, ydyw yr ymdrechiadau amrywiol a dyfeisgar a wneir i rwystro crediniaeth ynddo; ac nid llai gwybodus na hyny yw y ffaith mai y rhai a broffesant fod yn ddysgawdwyr crefydd, megys "Offeiriaid," "Peirch," "Pregethwyr," ac athrawon yn mhlith pob cenedl, yw cadfridogion y fyddin filwriaethus i'w erbyn heb eithro plaid, proffes, nac enwad; ac o blith eu holl ymosodiadau arno, credant mai yr hyn a alwant yn "*Spaulding Story*" yw eu ffondafl gryfaf, eu magnel drymaf, a'r *Tomahawk* sydd yn rhoddi yr ergyd marwol i Formoniaeth; ni welsom nemawr draethodau, ac ni chlywsom braidd erioed bregeth heb fod hon yn blaster ar ryw gwr o honi, ac ni chywsom sôn am nemawr gawr na choryn yn myned allan yn erbyn Mormoniaeth heb ymffrostio fod yr "asgwrn gên asen" trwsgl hwn, er hened yw, wedi trywanu sïol a bod yn dranc i Formoniaeth trwy rym ei gadarñ fraich ei hun. Gwisgwyd hi allan yn, ac ysgymunwyd ei hysgerbwd hi o'r byd gorllewinol; eithr draws y môr, drosodd daeth, ac i'r dosparth a enwyd a'u gwasaidd lu Golygyddol, nid oedd tiriad "Kossuth," Awdures "*Uncle Tom's Cabin*," ac ni fyddai tiriad yr Americ eu hun i'w crafangau yn boddio eu chwaeth yn fwy, debygid! I'r dim,—yn gywir—yn feddyginiaeth hollol i'w harchollion, yn gadernid rhag eu hofnau, ac yn rhwyd i ddal eu hudoledigion rhag dianc o'u bachau,—yn ol eu dewisiad, dyma hi! O'r newydd da,—cadwer dydd gwyl ei

thiriad hi! Mewn cerbydau i'r pwlpudau a'r Newyddiaduron, er gosod y byd ar dân, gyrwch yn mlaen y "Spaulding Story" anwyl!

Er mor hen a musgrell y prawf yr olrheiniad canlynol i'w hachau ei bod hi, etto, y mae wedi teithio hyd a lled y ddaear braidd! O'r Rwsia i Pategonia – holl ynysoedd y Môr Tawel, Cyfandir Affrica, a gorsafoedd yr India bell,—lle bynag y ceir Cenadwr, Esgob, neu sectwr selog yno ceir hi!

Mae y ddichell anwireddus am darddiad Llyfr Mormon o'r "*Spaulding Story*" wedi cael ei gwrth-brofi mor aml, mor eglur a thrwyadl yn yr Americ, yn Lloegr, a chenym ninnau yn Nghymru er's blynyddau yn ol, fel yr oeddem wedi cael lle i gredu y cywilyddiai hyd y nod yr un "Offeiriad" i'w hadrodd mwyach, ac ni fuasem yn diwyno ein dwylaw i gyffwrdd â hi yn awr, oddieithr bod y tylwyth cyfeiriedig yn gwneuthur ail ymdrech yn ddiweddar i'w hadgyfodi a'i lledaenu drwy'r wlad, ac y dichon fod llaweroedd a ymunasant yn ddiweddar neu a ymchwiliant i'n crefydd yn awr, heb weled y gwrthbrawfiadau hyny. Mae o'n blaen yn awr, nemawr llai na dwsin o bamphletach Cymraeg a Seisneg yn ceisio dweyd yr ystori hon, ac ni chawn ddau o honynt heb fod yn wahanol, os nid yn hollol groes i'w gilydd o barthed iddi. Nid ymdrafferthwn i sylwi arnynt ar wahan, ond awn o dan eu gwraidd hwynt oll ar unwaith, er cywilydd, debygwn, i'r "Parch. G. C. F. Harries, A. C.," am ei gyfieithad o honi, yn nhraethawd anwireddus y "Parch. F. B. Ashley," a'r Parch. William Rowlands," Curad Merthyr Tydfil a'i Gatechism gwarthus, os oes cywilydd ynddynt; a chwilyddied yr Offeiriaid ereill lu, y rhai ydynt heb well gwaith na thaenu y chwedlau ffol hyn ar hyd tai, tref a gwlad. Ai gwerth y 'Degwm' o holl ffrwyth ein daear yw gwaith fel hyn? Gwaith ag y buasai yn well iddynt pe nas genasid hwy na'i wneuthur! Gwaith ag y meddwn lawnder o wirioneddau i'w brofi yn dusw o anwireddau cyd-blethiedig o gwr bwy gilydd, serch y llu "Peirch," a'r teitlau ereill a'i cefnogant, a'r rhai a gaffant ymddysclaerio yn ngolau haul o flaen llygaid y cyhoedd, fel y ceir hamdden, nes y cyfaddefa pob carwr y gwir mai gweision gwasaidd "tad y celwydd" a'i gwnaeth yn bwrpasol i dwyllo. Felly dechreuwn gyda y "*Spaulding Story*;" dywed dyfeiswyr y ddichell gyfeiriedig fod

dyn o'r enw Solomon Spaulding, er dyfyrwch iddo ei hun wedi ysgrifenu *romance* yn proffesu rhoddi hanes cyn breswylwyr yr Americ, megys pe wedi ei hysgrifenu gan un o honynt, yr hwn a alwai yn "Llaw Ysgrif ddarganfyddedig," ac fel pe wedi ei hadferyd yn awr o'r ddaear. Haerir fod yr ysgrif wedi cael ei rhoddi i law dyn o'r enw Patterson, Argraffydd yn byw yn Pittsburgh, fod un o'r enw Sydney Rigdon yno ar y pryd, ac iddo gael yr ysgrif, a'i fod ef wedi cynnorthwyo Joseph Smith i wneuthur Llyfr Mormon o honi, drwy ychwanegu atti rahau o'r Ysgrythyrau, &c. I wirio hyn dygir yn mlaen bethau a broffesant fod yn dystiolaethau gweddw y Mr. Spaulding hwnw, ei frawd 'Parchedig,' a lluaws o 'Beirch' a theitlau anrhydeddusaf y teulu 'duwiolfrydig' hwn, pe cywirach am hyny!

Yn awr am chwilio eu "noddfäau celwydd!" Cyhoeddwyd y pethau hyn yn gyntaf mewn traethawd a enwid "*Mormonism Unveiled*," gan E. D. Howe, Panisville, Ohio, U. D. America, eithr awdwr gwreiddiol y llyfr oedd dyn o'r enw D. P. Hulbert, ychydig o hanes cymmeriad yr hwn a gynnorthwya i iawn ddeall yr hanes cyfeiriedig. Dyfynwn yn gyntaf dystiolaeth ddiwrthbrawf boneddwr adnabyddus iawn o hono o'r enw Mr. B. Winchester, yr hon, er ei chyhoeddi ar y pryd, ac ar chwareulawr y campwyr hyn, ni ddeallasom i neb o honynt ei hammheu erioed. Dyma a ddywed, a barned y darllenydd drosto ei hun:—

"Daethym yn adnabyddus â Mr. Hulbert yn James' town, talaeth Caerefrog Newydd. Yr oedd efe wedi bod yn bregethwr cynnorthwyol gyda y Wesleyaid, ond wedi cael ei ysgymuno am odineb. Yn mhen ysbaid wed'yn ymunodd â'r Saint, ac aeth i Kirtland yn Ohio, lle, yn mhen amser y galwyd ef yn bregethwr, a bu yn pregethu yn llwyddiannus am yspaid yn Pensylvania; ond syrthiodd i bechodau gwarthus, megys godineb, &c., ac ysgymunwyd ef gan y gynnadledd, a hwy ag ymmerasant ei drwydded oddiarno, etto ar ei edifeirwch a'i addunedau teg goddefwyd iddo aelodaeth o'r diwedd yn Kirtland. Ar ei ddychweliad oddiyno, ymosododd ar un o ferched Mr. Thomson, o swydd Geauga, Ohio, gan geisio ei threisio, a daliwyd ef yn y cyflawniad o'r weithred ysgeler. Gollyngwyd ef ar ammodau, ac ysgymunwyd ef o'r eglwys am byth o herwydd hyny. Pan welodd Hulbert ei fod wedi andwyo ei hun yn

